

Cynorthwy-ydd Gwisgoedd – Theatr Clwyd

Swydd barhaol

Llawn amser

Oriau – 37 awr yr wythnos

Graddfa TC04: SCP o 19 i 22

Cyflog o £19,446 i £21,074

Lleoliad: Theatr Clwyd, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 1YA

Mae Theatr Clwyd wedi bod yn theatr gynhyrchu fwyaf blaenllaw Cymru ers 1976. Ar hyn o bryd mae'r Tîm Gweithredol (y Cyfarwyddwr Artistig – Tamara Harvey a'r Cyfarwyddwr Gweithredol – Liam Evans-Ford) yn creu'r newidiadau diwylliannol a gweithredol pwysicaf yn hanes y 42 o flynyddoedd ers i'r theatr fod yn gweithredu, cyfnod a fydd yn aildiffinio ac yn diogelu dyfodol y ganolfan gelfyddydau unigryw a gwerthfawr hon.

Nod Adran Gynhyrchu'r theatr yw creu a chynnal i'r safonau uchaf bob agwedd ar gynyrchiadau Theatr Clwyd a'r prosiectau cysylltiedig, mewn partneriaeth â chyfarwyddwyr, cynllunwyr ac arweinwyr prosiect. Mae'r adran yn gyfrifol am sicrhau bod y timau creadigol yn cyflawni eu gweledigaeth artistig oddi mewn i amserlenni a chyllidebau y cytunwyd arnynt.

Bydd y Cynorthwy-ydd Gwisgoedd yn gweithio gyda'r Staff Torri a'r Rheolwr Gwisgoedd fel rhan o'r Adran Gynhyrchu er mwyn cyflawni swyddogaeth Gwisgoedd yn Theatr Clwyd a darparu gwasanaeth o'r safon uchaf bosib i gynyrchiadau'r theatr.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn wneuthurwr gwisgoedd medrus, a ffafir profiad o weithio mewn theatr gynhyrchu.

Dyddiad Cau ar gyfer Ymgeisio: Dydd Llun 1^{af} Gorffennaf 2019

Dyddiad(au) y Cyfweiliad: yr wythnos sy'n dechrau ar ddydd Llun 8^{fed} Gorffennaf 2019 / dydd Mawrth 16^{eg} Gorffennaf 2019

Anfonwch e-bost neu ffoniwch Debbie Knight (Rheolwr Gwisgoedd) am sgwrs anffurfiol.

debbie.knight@theatrclwyd.com

01352 701891

Mae posib lawrlwytho pecynnau cais drwy ddilyn y ddolen isod a chwilio am 'pob un'.

Mae Theatr Clwyd yn cydnabod bod gallu cyfathrebu yn y Gymraeg yn bwysig a gwerthfawr yn y gweithle ac mae wedi ymrwymo i gynyddu nifer y cyflogeion dwyieithog. Rydym yn croesawu ceisiadau ar gyfer unrhyw swydd gan ymgeiswyr sy'n gallu gweithio yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Hefyd byddwn yn cefnogi cyflogeion newydd a phresennol sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella/datblygu eu sgiliau yn y Gymraeg.

https://recruitment.flintshire.gov.uk/tlive_webrecruitment/wrd/run/ETREC105GF.open?WVID=2167552YRa